**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**National Assembly for Wales**
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Ken Skates AC,
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

19 Mawrth 2018

**Pwerau Trafnidiaeth Deddf Cymru 2017 a sesiwn graffu ar drafnidiaeth**

Annwyl Ysgrifennydd Cabinet,

Ysgrifennais atoch ar 22 Chwefror yn nodi'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan randdeiliaid mewn perthynas â datganoli pwerau trafnidiaeth o dan Ddeddf Cymru 2017. Ynghyd â barn rhanddeiliaid ar bwerau datganoledig mewn perthynas chofrestru bysiau, tacsis a cherbydau llogi preifat a pholisi a datblygiad o ran porthladdoedd, soniais ein bod wedi ysgrifennu at randdeiliaid ynglŷn â phwerau datganoledig yn ymwneud â therfynau cyflymder ac y byddem yn anfon diweddariad maes o law.

Cawsom ymatebion ysgrifenedig gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (ROSPA), y pedwar Heddlu yng Nghymru a GoSafe, ac mae pob un ohonynt wedi'u cynnwys yn llawn fel atodiad i'r llythyr hwn.

Roedd y rhanddeiliaid yn ochelgar ac yn galw am ymgynghoriad llawn gyda'r heddlu a phartneriaid allweddol eraill cyn cyflwyno unrhyw newidiadau i'r gyfundrefn bresennol o ran terfynau cyflymder.  Yn yr ymatebion, nodwyd bod addysg a gwella ymwybyddiaeth gyrwyr yn allweddol wrth sicrhau cydymffurfiaeth â therfynau cyflymder.

Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Living Streets fel rhan o waith craffu’r Pwyllgor ar ôl cyflwyno Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn galw am roi

sylw i leihau'r terfyn cyflymder mewn ardaloedd trefol i 20MYA er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd a chreu amgylchedd sy'n cydbwyso anghenion gyrwyr ag anghenion teithwyr llesol yn well.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am ba gynlluniau sydd gennych (os o gwbl) i ddefnyddio'r pwerau newydd hyn.

Cofion gorau,

Russell George